DEWCH O HYD I NI

# AR-LEIN




www.fgbuk.org

FGB

Manylion cyswllt lleol

I gysylltu â FGB: e-bost: office@fgbuk.org neu ffoniwch 01565 632 667 www.fgbuk.org

Dynion Busnes yr Efengyl Lawn


LIAIS

B0B00K

Dynion Busnes yr Efengyl Lawn

# LLAIS

## DROS GYMRU



## BYWYDAU WEDI EU NEWID

Pedair stori
wir i'ch ysbrydoli


Argraffiad i Gymru a'r Gororau

# croeso

**Croeso i'r rhifyn arbennig hwn o Llais.**

Ers dros hanner can mlynedd, mae'r cylchgrawn maint poced hwn wedi'i ddosbarthu ledled y byd mewn llawer o ieithoedd. Ym mhob rhifyn, ceir hanesion ysbrydoledig am bobl gyffredin sy'n rhannu eu hanes eu hunain yn eu geiriau eu hunain, am y ffordd y daeth yr awdur i ffydd fyw yn Iesu Grist, sydd wedi addo heddwch a bywyd helaethach i bawb sy'n ymddiried ynddo. Yn y Beibl, mae'r Iesu'n gofyn inni a ydym wedi blino neu'n cario baich yn ein bywyd ac mae'n ein sicrhau na fydd ef yn gosod baich trwm arnom ond yn ein helpu i gario ein beichiau.

"Dewch ataf fi, bob un sydd yn flinderog ac yn llwythog a mi a esmwythaf arnoch." Mathew 11:28 yn y Beibl.




Cynhyrchir y cylchgrawn hwn gan gymdeithas Dynion Busnes yr Efengyl Lawn yn y DU ac Iwerddon neu FGB yn fyr. Heddiw, mae miloedd o Grwpiau Lleol yn cwrdd mewn mwy na 100 o wledydd. Cynrychiolir y Gymdeithas mewn sawl rhan o'r DU ac rydym yn croesawu newydd-ddyfodiaid i'n digwyddiadau rheolaidd, nosweithiau cinio fel arfer gyda siaradwyr gwadd.

Mae croeso i ddynion o bob cefndir, boed yn gweithio, wedi ymddeol neu'n ddi-waith; ni chaiff neb ei gau allan. Mae croeso hefyd i ferched fynychu digwyddiadau'r FGB ac anogir hwy i gefnogi'r gwaith drwy aelodaeth o 'Merched FGB'. Mae cymdeithas FGB UK yn 'perthyn i'r eglwys' ac yn cael ei hardystio gan lawer o arweinwyr Cristnogol, gan gynnwys, Dr John Sentamu, Archesgob Swydd Efrog, sy'n dweud: "Mae arnom angen mwy o ddynion tebyg iddyn nhw!"

I gysylltu â FGB UK:
E-bost: office@fgbuk.org
neu ffoniwch 01565 632 667
**www.fgbuk.org**

FGB



# Eich ymateb?

Wrth i chi ddarllen y straeon gwir yn y cylchgrawn hwn, efallai y bydd arnoch chithau hefyd eisiau gofyn i Dduw ddod i mewn i'ch bywyd. Mae tri cham syml i wneud hyn: Cristion go iawn yw rhywun sydd â pherthynas bersonol â Duw, am ei fod wedi gwahodd Iesu Grist i fod yn Arglwydd ac yn Waredwr personol iddo.

**Cam 1:** Cyfaddefwch eich bod wedi pechu drwy syrthio'n fyr o safon Duw - Cyfaddefwch fod angen Gwaredwr arnoch i ddelio â'ch gorffennol a sicrhau eich dyfodol.

**Cam 2:** Credwch fod Iesu Grist yn Fab Duw a fu farw ar y groes i dalu'r gosb am eich pechodau.

**Cam 3:** Derbyniwch yr Iesu fel Gwaredwr ac Arglwydd ar eich bywyd drwy ei wahodd yn bersonol a gofynnwch am ei faddeuant am eich pechodau. Eich penderfyniad i dderbyn Iesu Grist fel Gwaredwr ac Arglwydd yw'r penderfyniad pwysicaf y byddwch byth yn ei wneud. Dyma weddi y gallwch ei gweddïo - os gallwch ddod o hyd i le tawel i weddïo hyn yn uchel:

*"Arglwydd Iesu, rydw i'n credu dy fod yn Fab Duw. Rydw i'n credu i ti farw ar y groes drosof fi. Mae'n ddrwg gen i am fy mhechodau ac rydw i wir eisiau troi i ffwrdd oddi wrthyn nhw. Rydw i'n gofyn i ti faddau i mi a glanhau fy nghalon." (Cymerwch amser yma i sôn am unrhyw beth ar eich cydwybod. Yna ewch ymlaen ...)*

*Rydw i eisiau ymddiried fy mywyd i ti, a dechrau yn awr. Os gweli'n dda bydd yn Arglwydd a Gwaredwr i mi. Rydw i'n dy wahodd i mewn i fy mywyd. Helpa fi i fyw gyda nerth yr Ysbryd Glân i'm harwain ac i'm dysgu.*

*"Rydw i'n awr yn credu dy addewid yn y Beibl fy mod wedi cael fy aileni. Rydw i'n wir blentyn i Dduw. Helpa fi i ymddiried ynot ti â'm holl galon. Diolch i ti, Arglwydd Iesu. Amen. "*

**Cysylltwch â ni: anfonwch y cwpon isod, yn syth, a byddwn yn anfon canllaw rhad ac am ddim i chi am y ffordd i dyfu fel Cristion.**

---

**Fy ymateb personol**

Ticiwch yma i ofyn am lyfryn am ddim o'r enw 'Finding God' ☐

Heddiw rydw i wedi derbyn Iesu Grist fel fy Arglwydd a'm Gwaredwr ☐

Anfonwch fanylion am Gymdeithas FGB i mi, os gwelwch yn dda ☐

Fy enw: ______________________________________________

Cyfeiriad: ______________________________________________

__________________________________ Cod post : __________

Anfonwch i: **FGB Voice, PO Box 11, Knutsford, Cheshire, WA16 6QP**

ateb yn Ei ras.

Cyfarfûm â myfyriwr meddygol a phriodi a chawsom dri o blant hyfryd. Erbyn hyn, roedd gen i fywyd prysur iawn fel gwraig i feddyg a mam i dri, a doedd gen i mo'r amser na'r angen am Dduw yn fy mywyd.

Flynyddoedd yn ddiweddarach, ar ôl ymgartrefu yn ôl yn y Gogledd, ar ôl taith fer i'r Alban, cwrddais â hen gyfaill nyrsio a chanfod yn ddiweddarach ei fod yn Gristion. Ar yr adeg yma, daeth fy mam i fyw atom ac fe wnes i ei nyrsio hi am 3 blynedd nes iddi farw yn 1976. Ar ôl hynny euthum drwy gyfnod isel ac wrth i mi siarad â'm ffrind gwahoddodd fi i astudio'r Beibl gyda'i wraig. Gwrthodais i ddechrau, [doedd Anglicaniaid ddim yn gwneud Astudiaethau Beiblaidd yng nghanol yr wythnos yn y dyddiau hynny], ond yn y pen draw fe euthum.

Yn ystod y cyfarfodydd hynny, roeddem yn astudio Efengyl Ioan ac yn enwedig Ioan 3.3, - rhaid i chi gael eich 'geni drachefn'. Rhannodd y merched eraill eu profiadau amrywiol o ddod yn Gristion. Wedyn sylweddolais mai dyma'n union yr oeddwn i wedi ei brofi flynyddoedd yn ôl ac ailgysegrais fy mywyd Iddo eilwaith.



Gallaf ddweud yn awr bod Duw wedi bod yn rhan o fy mywyd byth ers hynny, er nad oedd erioed wedi fy ngadael; y fi oedd wedi ei adael Ef.

Ar ôl hynny treuliais lawer o flynyddoedd mewn Eglwys Bentecostaidd ac wedyn fe arweiniodd Duw fi yn ôl i'r Eglwys yng Nghymru. Rwyf wedi bod yn ddarllenydd lleyg trwyddedig ers blynyddoedd a chefais y fraint o helpu gyda llawer o glybiau plant.

Rwyf wedi cael Duw yn gyson ffyddlon drwy gydol fy mywyd Cristnogol.

Nid yw fy nheulu i gyd yn Gristnogion ond gwn ei fod Ef yn ffyddlon ac y bydd yn cadw ei law arnynt fel y gwnaeth i mi yn ystod y blynyddoedd hynny o anialwch tu mewn.

Fel nodyn o ddiddordeb, pan oeddwn yn blentyn, rwyf yn cofio fy nhad oedrannus, oedd yn saer coed wrth ei alwedigaeth, yn gweithio'n hapus wrth ei fainc yn ei sied ar waelod ein gardd ac yn canu ar ei ben ei hun, mewn iaith nad oeddwn yn ei deall, ac yn canu'r hen emynau Sankey hyfryd.

Wrth feddwl yn ôl, rydw i'n credu ei fod yn canu mewn tafodau oherwydd, fel bachgen ifanc, roedd wedi byw yn ne Cymru yn ystod cyfnod diwygiad 1904/05 yng Nghymru, ac yn achlysurol fe fyddai'n cofio bod mewn cyfarfodydd mewn tai teras bychain gyda dwy ystafell wely yn llawn o bobl ifanc yn canu ac yn canmol Duw.

**Judy Williams** o Ogledd Cymru



# Pedair stori sy'n cynhesu'r galon am bobl sy'n byw yng Nghymru sydd wedi derbyn ACHUBIAETH a CHYCHWYN NEWYDD:


Y CYMWYSTERAU ANGHYWIR
**Y SWYDD IAWN**
Tudalen 03

O DDICTER I
**IACHÂD MEWNOL**
Tudalen 07

ILDIO
**BYWYD A BUSNES**
Tudalen 11

**ANNWL A DIOGEL**
Tudalen 15



# Y Cymwysterau Anghywir ond Cafodd y SWYDD IAWN

Cefais fy synnu, hyd yn oed, fy syfrdanu, yn ystod grŵp trafod yng nghartref fy nghymydog, Peter, pan rannodd uwch swyddog Llywodraeth Leol ei stori a sôn bod ganddo berthynas bersonol o'r galon â Iesu Grist.

Dywedodd y siaradwr, Don Latham, ei fod yn cynnwys yr Iesu ym mhob penderfyniad busnes. Ond beth ar y ddaear oedd o'n ei feddwl? Nid oeddwn wedi cyfarfod ag unrhyw un erioed a oedd yn cynnwys *Duw* yn ei yrfa broffesiynol!

Wrth edrych yn ôl ar fy mhlentyndod yn Lymington, ar arfordir y De, roeddwn i'n gweld gwasanaethau'r eglwys yn ddiflas tu hwnt. Ar y Sul, byddai ein teulu ni hefyd yn mynd i hwylio yn y Solent ac roedd yn well o lawer gen i hynny.



Cefais fy magu mewn cwm yn Ne Cymru ac roeddwn yn mynychu'r eglwys deirgwaith bob dydd Sul; oedfa'r bore, yr Ysgol Sul a Hwyrol Weddi. Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru oedd hi ac roeddwn i yn y côr. Roeddwn yn mwynhau'r digwyddiadau corawl a'r digwyddiadau allanol ychwanegol fel gorymdeithiau'r Sulgwyn, pan fyddai'r holl enwadau yn y dref yn ymuno â'i gilydd gyda'u baneri gwahanol i orymdeithio gyda'i gilydd ar ddydd Llun y Sulgwyn i'r cae pêl-droed ar gyfer te prynhawn a chwaraeon.


Byddem hefyd yn cael tripiau Ysgol Sul i lan y môr. Fel arall doeddwn i ddim yn dda o ran presenoldeb yn yr eglwys ac roeddwn i'n ei chael hi'n ddiflas. Mae'n rhaid i mi grybwyll yn y fan hon ein bod yn aml ar y tripiau i lan y môr yn cael 'teithiau traeth', oedd yn golygu fy mod i fel unig blentyn yn cael fy nhynnu i mewn ac roeddwn yn mwynhau hynny. Rydw i'n siŵr bod y rhain wedi helpu i ychwanegu at fy addysg Gristnogol.

Er dweud bod y gwasanaethau'n ddiflas i mi, mae'n rhaid bod yr Ysbryd Glân wedi bod yn gweithio yn fy mywyd a bod rhywbeth o'r gwasanaethau hyn wedi creu argraff arnaf. Rydw i'n cofio'n glir, fel pe bai ddoe, yn ystod amser y Pasg, efallai hyd yn oed ar ôl gwasanaeth dydd Gwener y Groglith, fy mod yn gorwedd yn fy ngwely un noson pan sylweddolais fod yr Iesu wedi hongian ar y groes honno drosof i a gofynnais iddo ddod i mewn i fy nghalon ac addewais y byddwn yn byw iddo. Yna cefais y profiad mwyaf bendigedig; roedd yr ystafell fel pe bai yn llawn o olau ac roeddwn i'n teimlo mod i'n annwyl Iddo ac yn ddiogel. Roeddwn i'n gwybod yr adeg honno y byddai'r Iesu gyda mi bob amser. Roeddwn i'n teimlo hefyd fy mod wedi cael fy arwain i agor fy ngheg a dechrau ei ganmol ac wrth i mi wneud hynny daeth yr iaith harddaf allan o'm ceg, gan ychwanegu at y profiad.

Y bore wedyn, penderfynais beidio â dweud wrth neb am fy mhrofiad, rhag ofn i bobl feddwl fy mod yn rhywun oedd angen cymorth ac y byddent yn delio â'r mater yn unol â hynny! Nid oeddwn erioed wedi clywed am 'fedydd yr Ysbryd' ac roeddwn yn eithaf sicr nad oedd neb arall yn ein heglwysi wedi clywed ychwaith!

O ganlyniad i'r profiad hwn penderfynais y dylwn i fynd yn genhades, ac anfonais gais i Gymdeithas Genhadol Llundain. Yn ddoeth iawn. fe wnaethant fy nghynghori i gael hyfforddiant ar gyfer galwedigaeth ddefnyddiol ac, yn 17 mlwydd oed, dechreuais fy hyfforddiant i fynd yn nyrs.

Fe wneuthum fwynhau fy hyfforddiant a'r agwedd gymdeithasol gymaint fel yr anghofiais bopeth am fy awydd i wneud gwaith cenhadol a hefyd am Dduw, er fy mod i bob amser yn ymwybodol o'i bresenoldeb, yn enwedig ar adegau o argyfwng; ar yr adegau hynny fy hoff weddi oedd HELP. Rhaid i mi ddweud Ei fod ef yn



# ANNWYL A DIOGEL

Ar ôl i mi dyfu i fyny a gadael cartref, rhoddais y gorau i fynd i'r eglwys. Eto i gyd roedd stori ryfedd y dyn yn yr un proffesiwn â mi, ac oedd yn clywed oddi wrth Dduw, yn fy ngwneud i'n chwilfrydig. Felly, byddaf yn rhannu mwy yn nes ymlaen am effaith hynny.

Fe soniaf yma fy mod wedi cymhwyso mewn garddwriaeth a chwrdd â'm gwraig, Heather, yn y coleg. Cawsom ddau o blant, Lorna a Duncan. Mynychai fy nheulu yr eglwys leol yn y pentref, ond ar y Sul fe fyddwn i'n dod o hyd i bethau eraill i'w gwneud o gwmpas y tŷ a'r ardd, yn lle hynny!

Roeddwn hefyd yn uchelgeisiol yn fy ngwaith ac yn astudio'n galed ar gyfer cymwysterau pellach. Roedd arnaf eisiau bod yn Brif Swyddog mewn Llywodraeth Leol. Dechreuais drwy reoli parciau yn Swindon. Yn ddiweddarach, deuthum yn ddirprwy reolwr parciau yn Ninas Caerfaddon. Yn olaf, ar ôl 15 mlynedd fel Cyfarwyddwr mewn nifer o awdurdodau lleol eraill, cymerais ymddeoliad cynnar a deuthum yn weithiwr gyda'r Gymdeithas Garddwriaeth Frenhinol fel beirniad ar gyfer y gystadleuaeth 'Prydain yn ei Blodau', lle mae pentrefi, trefi a dinasoedd yn cystadlu am yr- arferion gorau o ran yr amgylchedd a thirwedd.

Am chwe blynedd, cynrychiolais y DU fel beirniad yn y gystadleuaeth Ewropeaidd o'r enw *'Entente Florale'* - a dod yn Gadeirydd eu rheithgor rhyngwladol wrth i ni deithio i 12 o wledydd. Ymddangosai i mi fy mod wedi dod yn bell o'r dyddiau cynnar fel garddwr cynorthwyol i gyrraedd brig fy mhroffesiwn.

Heddiw, wrth edrych yn ôl, cofiaf yn glir y diwrnod hwnnw y clywais Don Latham am y tro cyntaf yn dweud wrthym sut yr oedd yn ceisio arweiniad Duw bob dydd wrth wneud penderfyniadau pwysig. Gwnaeth i mi feddwl - a gyda pheth chwilfrydedd derbyniais wahoddiad i fynychu noson ginio Cymdeithas Dynion Busnes Cristnogol mewn gwesty lleol.

Roedd y siaradwr yn weithredwr marchnata proffesiynol, oedd yn cynnwys Iesu Grist ym mhopeth a wnâi! Ar ddiwedd ei sgwrs, gwahoddodd ymwelwyr nad oeddent yn Gristnogion i dderbyn Iesu Grist i mewn i'w bywydau, i dderbyn ' bywyd newydd '. Mae'r Beibl yn galw hyn yn 'aileni ' ysbrydol, ac yn y ffordd honno, rydym ni hefyd yn derbyn bywyd tragwyddol, meddai.

Yn awr sylweddolais yn bendant *nad* oeddwn yn adnabod yr Iesu yma. Wnes i ddim ymateb i'w apêl, efallai allan o falchder. Ac eto, roeddwn I'n ymwybodol nad damwain oedd y gyfres hon o 'gyfarfyddiadau â Duw'. Cofiais am y grŵp trafod hwnnw, pan ddywedodd rhyw -un, 'os oes unrhyw un eisiau bod o ddifri gyda Duw, fe ddylen nhw ddarllen Efengyl Ioan yn y Beibl.'

Felly, yn ôl adref, cefais hyd i Feibl, a agorodd yn yr union fan honno. Wrth i'm llygaid redeg dros dudalennau efengyl Ioan, fe wnaeth y geiriau ar frig y dudalen sefyll allan: Dywedodd yr Iesu: "Yn wir, meddaf i chwi, y neb sydd yn gwrando fy ngair i, ac yn credu i'r hwn a'm hanfonodd i, a gaiff fywyd tragwyddol, ac ni ddaw i farn, eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd." (Ioan 5:24*)*. Roeddwn i'n rhyfeddu wrth imi ail-ddarllen y geiriau hynny, roeddwn i'n teimlo bod Duw yn siarad yn uniongyrchol â fy nghalon. Roedd yr adnod nesaf yn addo: "Yn wir, meddaf i chwi, y mae'r awr yn dyfod, ac yn awr y mae, pan glywo'r meirw lais Mab Duw; a'r rhai a glywant a fyddant byw."

Yn ddwfn i lawr, roeddwn yn gwybod fy mod yn ysbrydol 'farw', ond pe bawn yn

‘clywed ei lais’ ac yn derbyn Crist fel fy Ngwaredwr, yna byddai hyn yn newid fy mywyd. Ni allwn wrthod y gwahoddiad hwn gan Dduw, ac fe wnes i gyfaddef fy nifaterwch tuag at gariad Duw dros gyfnod hir. Yna, gofynnais i’r Iesu fod yn Arglwydd fy mywyd. Cam syml, ond mae wedi troi allan i fod yn benderfyniad sy'n newid bywyd yn llwyr.

Yn awr, flynyddoedd yn ddiweddarach, mae'r foment werthfawr honno'n dal yn ffres yn fy meddwl. Mae fy mywyd newydd fel un sy’n credu yn Iesu Grist wedi bod yn gymaint gwell na dim y gallwn fod wedi ei freuddwydio. Hwn oedd y newyddion gorau erioed; fe wnaeth hyd yn oed fy ngyrfa broffesiynol gychwyn mewn ffordd wyrthiol. Er enghraifft, doedd gen i ddim y cymwysterau iawn ond fe gefais fy nerbyn ar gyfer cwrs MSc yn y brifysgol. O fewn dwy flynedd, yn ddim ond 36 oed, cefais fy swydd gyntaf fel Prif Swyddog ar adran amlddisgyblaethol fawr mewn Llywodraeth Leol.

Fe wneuthum ddarganfod cymdeithas gyda chredinwyr eraill a chymerais ran mewn heriau cyffrous - rydw i wedi bod yn hoff o deithio dramor erioed. Felly, yn fy llawenydd newydd fel Cristion yr oeddwn yn ymwneud â smyglo Beiblau i mewn i wledydd ‘caeedig’. Gwelsom atebion gwyrthiol i weddi wrth inni ymddiried yn yr Ysbryd Glân i'n harwain.

Gall bywyd, wrth gwrs, fod yn anodd i bob un ohonom, ond mae’r Iesu yn addo na fydd byth, byth yn ein gadael ni. Mae hyn yn wir, hyd yn oed mewn cyfnodau trychinebus. Roedd calonnau Heather a minnau wedi torri pan gafodd ein mab 16 oed, Duncan, oedd ar un adeg mor llawn o fywyd, ei daro’n ddifrifol wael o lewcemia. Bu farw yn 19 oed.

Roeddem yn wynebu cwestiynau ingol, pam nad oedd Duw wedi iachâu Duncan? Ac eto, yn ein dryswch, roeddem yn gwybod bod llawer o bobl yn gweddïo dros ein teulu, a chawsom ein cryfhau gan yr Ysbryd Glân a elwir hefyd ‘y Diddanydd’. Gwyddom nad marwolaeth yw diwedd y stori a bod Duncan yn y nefoedd ar hyn o bryd, oherwydd bod y Beibl yn addo i ni “na all dim ... nac angau nac einioes ... nac uchder na dyfnder ein gwahanu oddi wrth gariad Duw sydd yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.” (Rhufeiniaid 8).

Er gwaethaf ein dagrau, yr oedd llawenydd o'n blaenau: chwe mis yn ddiweddarach, dywedodd ein merch, Lorna, sydd yn briod â Stephen, wrthym eu bod yn disgwyl eu baban cyntaf, a chyrhaeddodd ein hŵyr cyntaf yn ddiogel. Heddiw, mae gan Heather a minnau bump o wyrion iach a gweithgar. Mae'r teulu'n byw ac yn gweithio yn Kuala Lumpur ym Malaysia a byddwn yn ymweld â nhw'n rheolaidd.

Dydym ni ddim yn gwybod beth sydd gan y dyfodol ar ein cyfer, ond bydd Duw yn mynd â ni drwyddo. Mae yna adnod fach sy'n dweud, “Profwch a gwelwch mor dda yw yr Arglwydd, gwyn ei fyd y gŵr a ymddiriedo ynddo.” (Salm 34:8).

Dyna fu ein profiad ni - pam na wnewch chi ei wneud yn brofiad i chi?



**Clive Addison**
Cyfarwyddwr Cenedlaethol FGB o Ogledd Cymru



rhyfeddaf yn fy mywyd. Roedd fel petawn i wedi gosod lozens mentyll, fel ‘Fisherman’s Friend’, yn fy ngheg. Yn sydyn, roedd holl system fy nhrwyn yn glir. Yn ddiweddarach, wrth imi adael y cyfarfod hwnnw, gwyddwn fod Duw wedi fy iacháu. Beth arall allai hynny fod? Ers hynny dydw i ddim wedi cael polyp na thwymyn y gwair. Ysgogodd y profiad iachusol hwn newid dwfn yn fy mywyd, er gwaethaf fy mhroblemau busnes. Gallech ddweud fy mod wedi mynd yn gaeth i weddi! Roeddwn yn fy nhrochi fy hun yn y Beibl. Roedd yr ysgrythurau yn dal i ddweud yr un peth wrthyf, rho dy ffydd yn Iesu Grist a phaid â phoeni. Nid dyna’r cyfan!

Mewn cyfarfod gweddi yn fuan wedyn, roeddwn yn gweddïo am gael fy medyddio â'r Ysbryd Glân. Yna, cododd un oedd yn yr eglwys ar y pryd i fyny a dweud ei fod wedi cael gair gan Dduw fod angen i rywun gael ei fedyddio â'r Ysbryd Glân. Wrth iddynt weddïo drosof, o fewn 15 eiliad yr oeddwn ar y llawr a’m cyhyrau yn ysgwyd ym mhob cyfeiriad gyda theimlad na allaf ei ddisgrifio ond fel cael fy llenwi â gogoniant Duw. Y diwrnod wedyn dechreuais weddïo yn yr iaith a roddwyd gan yr Ysbryd Glân fel ei rodd personol. Roeddwn i'n teimlo'n wych! Mae Duw wedi addo cyflenwi ein holl anghenion, os gofynnwn iddo. Yn awr, rwy'n ymddiried fy mywyd a'm busnes i Dduw. Dyma'r penderfyniad doethaf a wnes i erioed!

Wrth i amser fynd heibio, rwyf yn edrych yn ôl ar yr hyn y mae Duw wedi ei wneud yn fy mywyd, ac yn f’atgoffa fy hun o ba mor dda y mae Duw wedi bod. Dydy bod yn ddilynwr i Dduw ddim yn golygu bod fy mywyd wedi dod yn berffaith yn allanol ac nad ydw i bellach yn gwneud dim o'i le. Mae'n golygu fy mod yn gynt i edifarhau ac yn f’atgoffa fy hun ei fod Ef yno beth bynnag sy’n digwydd.



**Jonathan Rees** o Bowys

uniongyrchol o £11,000 a phrin ddim arian i'w talu. Gweddïais – a'r un diwrnod talwyd pob ceiniog.

Mae wedi bod yn daith galed a newid bywyd, ond ers i mi ddechrau gweddïo o ddifrif, rwyf wedi gweld gwyrthiau yn llythrennol, gan fod Duw



wedi ateb gweddïau yn erbyn pob disgwyliad. Rwyf hefyd wedi cael profiad o nerth Duw yn iacháu yn annisgwyl ac ar unwaith. Digwyddodd sawl blwyddyn yn ôl, pan gefais wahoddiad i fod yn westai mewn cinio i ddynion busnes Cristnogol yn y Drenewydd, Canolbarth Cymru. Trefnwyd y noson gymdeithasol gan grŵp lleol Dynion Busnes yr Efengyl Lawn, y darganfûm yn ddiweddarach fod ganddynt grwpiau tebyg mewn sawl rhan o'r byd. Rwyf erbyn hyn yn dal swydd y Llywydd yn fy ngrŵp lleol.

Ar ôl y pryd bwyd, croesawyd y siaradwr gwadd, cyn-ddyn busnes, Ash Kotecha. Indiad ydoedd a aned yn Affrica ond a addysgwyd yn y DU. Dywedodd Ash, a oedd wedi'i eni i deulu Hindŵaidd cyfoethog, am ei gyfarfyddiad ef ei hun â'r Iesu a sut yr oedd wedi darganfod bod yr Iesu yn dal i iacháu pobl heddiw. Dywedodd Ash ei fod wedi gweld llawer o bobl yn cael eu hiacháu, gan gynnwys ei berthnasau ei hun. Dywedodd y byddai'n falch i weddïo dros bobl ar ddiwedd y cyfarfod.

Yn ystod ei sgwrs, cafodd yr hyn y mae'r Beibl yn ei alw'n "eiriau o wybodaeth", argraffiadau a roddwyd gan Dduw am bobl yn bresennol a oedd angen cael eu hiacháu. galwodd Ash yn hyderus allan, "Mae rhywun yma sydd wedi bod yn dioddef gyda phroblem trwyn." Daliodd hyn fy sylw i, oherwydd roeddwn i wedi dioddef o bolypau trwyn a thwymyn y gwair ers 15 mlynedd a hyd yn oed wedi bod drwy lawdriniaeth aflwyddiannus bum mlynedd yn gynharach. Nid oedd dim mwy y gallai'r meddygon ei wneud. Dywedodd Ash fod Duw yn iacháu pobl yn y cyfarfod a gwahoddodd westeion i "godi eich llaw i fyny os oeddech am gael eich iacháu". Rhowch eich ffydd yn Iesu Grist a pheidiwch â phoeni.


Dyna pryd y profais un o'r pethau




# LLYFR AM DDIM I CHI

**Dewch i ddarganfod bywyd newydd fel Cristion**

Yn syml, anfonwch y cwpon ateb ar dudalen 18 y cylchgrawn Llais hwn i dderbyn copi am ddim o 'Finding God' sy'n dweud mwy am fywyd fel gwir ddilynwr i Dduw.





# O DDICTER A DRWGDEIMLAD I IACHÂD MEWNOL


Er i mi gael fy magu mewn teulu Cristnogol, gwybod am Dduw yr oeddwn i yn hytrach na'i adnabod yn bersonol. Roedd gennyf uchelgais ers tro byd i fod yn berchen ar fy musnes fy hun, ar ôl dysgu am werth gwaith caled ar fferm fy rhieni yng Nghymru. Roeddwn hefyd yn mynychu Eglwys Gymunedol Hope yn y Drenewydd. Yno y cyfarfûm â Sally, oedd i ddod yn wraig i mi, ac fe wnaethom ni briodi yn 2002.

Yr oeddwn ar gromlin ddysgu serth, yn dysgu'r fasnach bwtsiera. O fewn cyfnod byr, yr oedd archebion cyfanwerthu ar gyfer cig eidion, cig oen a phorc yn llifo i mewn ac yr oedd gennym gontract i gyflenwi un o brif westai Llundain. Wrth i'r busnes ffynnu, fe wnaethom ni ennill y Gwobrau Cenedlaethol gorau yn ein sector, bedair blynedd yn olynol. Erbyn 2007, roeddem yn rhedeg ein sioe ein hunain ar y sianel siopa ar y teledu. Wrth i mi gyflwyno ein cynnyrch, roeddem yn gwerthu gwerth £3,000 o gig y funud! Roedd bywyd yn dda. Roedd y busnes yn tyfu, ac felly roedd ein teulu ni hefyd. Erbyn diwedd 2007, roedd gan Sally a minnau dri bachgen hardd.

Fodd bynnag, dechreuodd yr economi arafu. Gostyngodd gwerthiannau archebu drwy'r post o 30 y cant a daeth ein contract teledu i ben. Roedd y banc yn gyndyn i helpu ac fe saethodd fy mhryder i fyny. Roedd y busnes a oedd wedi cymryd drosodd fy mywyd ar fin chwalu!

Yn y sefyllfa argyfyngus hon, syrthiais i lawr ar fy ngliniau yn ein hystafell fyw ac ildio fy mywyd a'm busnes yn llwyr i ddwylo Duw. Roeddwn yn crïo fel babi, yn ymwybodol o ddim ond fy uchelgeisiau hunanol ond yn rhyfeddu at yr heddwch a lifodd i'm henaid. O'r diwedd, roeddwn wedi dod i adnabod Duw yn bersonol, roeddwn wedi cael fy 'ngeni drachefn'. Heb y profiad hwn, meddai'r Iesu, ni allwn weld teyrnas nefoedd na mynd i mewn iddi.

Yn fuan wedyn roeddwn i'n teimlo Duw yn dweud wrthyf am ffonio'r banc am fwy o arian. Fe'm hatgoffwyd gan fy staff fod y banc eisoes wedi dweud na, ac mai bychan iawn oedd y tebygolrwydd y byddent yn newid eu meddwl. Fodd bynnag, roeddwn yn gwybod bod yr Ysbryd Glân wedi dweud wrthyf am ffonio'r banc, felly fe wnes i – a dywedodd y banc "ie". Dechreuodd gwyrthiau ddigwydd. Er enghraifft, un diwrnod roedd gennym ddebydau



# ILDIO BYWYD A BUSNES

Cefais fy magu i fynd i'r eglwys gyda fy rhieni. Eglwys Anglicanaidd ydoedd. Fel merch yn ei harddegau, cefais fedydd Esgob ac yr oeddwn bob amser yn credu yn Nuw ac yn Iesu Grist. Yn 22 oed priodais Roger. Cawsom bedwar o blant hyfryd, i gyd wedi eu bedyddio fel babanod, ac roeddem yn mynychu'r eglwys.

Yn 32 oed, roeddwn yn poeni am fy iechyd [roeddwn wedi cymhwyso fel nyrs]. Roeddwn i'n poeni'n fawr ac yn meddwl fy mod i'n mynd i farw. Penderfynais ofyn i Dduw fy helpu, ac rwy'n cofio dweud wrtho mai ef oedd yr unig un a allai. Ar ôl peth amser, nid oedd dim wedi digwydd ac rwy'n cofio mynd yn ôl a dweud wrtho, [beth yw haerllugrwydd!], os nad oedd yn gallu fy helpu'n uniongyrchol, yna a allai ddweud wrthyf i ble y gallwn fynd i gael cymorth.

Aeth peth amser heibio ac yna, un noson yn y gwely, yr oeddwn yn effro drwy'r nos. Roedd Roger yn cysgu wrth fy ochr, a deuthum yn ymwybodol o bresenoldeb Duw. Dangosodd Duw i mi ei fod yn gwybod popeth amdanaf, pob gair a ddywedais erioed, a phopeth yr oeddwn erioed wedi ei wneud. Nid oedd dim yn guddiedig oddi wrth ei lygaid. Dangosodd i mi fod gen i gasineb yn fy nghalon tuag at ffrind i mi oedd wedi gwneud rhywbeth oedd wedi fy nghythruddo'n fawr [a dim ond ceisio bod yn gymwynasgar yr oedd hi]. Roeddwn yn gwybod heb gysgod o amheuaeth fy mod, heb faddeuant Duw, ar fy ffordd i uffern! Dwi'n cofio y bore wedyn i mi ofyn i Roger beth oedd ef yn mynd i'w wneud ar ddydd y Farn? Rwy'n credu ei fod yn meddwl fy mod wedi mynd ychydig yn rhyfedd.

Yn ddiweddarach y flwyddyn honno, yr oeddem i gyd yn mynd i lawr o Gymru, lle'r ydym yn byw, i Sussex i aros gyda'm rhieni am wythnos, ac wedyn am wythnos gyda rhieni Roger. Doedd Roger ddim yn aros ond am y penwythnos oherwydd bod yn rhaid iddo ddychwelyd i'r gwaith, ond tra roedd ef gyda ni, tynnodd lyfr oddi ar y silff yn ein hystafell wely a dweud y dylwn ei ddarllen. Fe'i gelwid, "*Venture into Healing*". Roedd yn ymwneud â'r Iesu'n iacháu pobl heddiw. Ar ddiwedd y llyfr, roedd enw a chyfeiriad y genhadaeth iacháu yn Llundain ac amser y gwasanaeth a gynhelid bob wythnos.

Roeddwn i'n meddwl ei fod yn rhaid mai Duw oedd hyn yn dangos i mi ble i fynd. Ar ôl dychwelyd i Gymru, ffoniodd Roger nhw, a darganfod bod y genhadaeth yn cael ei rhedeg gan Eglwys Anglicanaidd a'u bod yn edrych ymlaen at fy ngweld i! Gan fy mod yn aros gyda'm teulu yng nghyfraith, cytunasant i ofalu am y plant am y dydd [a hyd yn oed prynu'r tocyn trên i Lundain]!

Wrth gyrraedd Llundain a cherdded i lawr y ffordd i ddod o hyd i'r man lle roedd y gwasanaeth i gael ei gynnal, roeddwn yn ceisio rholio sigarét, pan ddaeth gwraig ataf a oedd hefyd yn mynd i'r genhadaeth iacháu. Aethom ymlaen gyda'n gilydd ac ni chefais erioed y sigarét honno, ac nid wyf wedi ysmygu byth ers hynny. Roedd y gwasanaeth yn cael ei gynnal ar islawr tŷ mawr yn Llundain ac roedd y ficer yn sefyll wrth y drws. Gofynnodd imi sut yr oeddwn wedi dod yno? Dywedais y stori wrtho a dywedodd, "Mae llawer o bobl yn dod fel yna."

Ni allaf ddweud unrhyw beth wrthych am y gwasanaeth ei hun, na'r hyn a bregethwyd, ond ar y diwedd gofynasant a fyddai unrhyw un yn hoffi gweddi am iachâd. Euthum ymlaen a phenlinio gyda llawer o bobl eraill. Daeth dynes i weddïo drosof i, ac yna gofynnodd i mi a oeddwn wedi teimlo unrhyw beth. Dywedais wrthi nad oeddwn wedi teimlo dim ond

dywedodd wrthyf, “Mae gen i ffydd oherwydd rwy'n credu bod Duw wedi eich cyffwrdd chi.” Prin yr oeddwn i’n gwybod beth oedd ffydd ond, wrth imi gerdded yn ôl i fy sedd, dechreuais wylo a wylo.

Yn fy sedd pan oeddwn i’n crïo, cefais yr hyn yr wyf yn gwybod yn awr oedd yn weledigaeth o’r Iesu. Gwelais Ef ac roedd yn fyw. Ar unwaith roeddwn i'n gwybod ei fod yn fyw, ac wedi codi o'r bedd ar ôl cael ei groeshoelio ar y groes. Talodd y ddyled na allwn ei thalu a rhoddodd ei gyfiawnder Ef yn fy lle, er nad oeddwn yn ei haeddu. Cymerodd fy nghosb a phrofi marwolaeth er mwyn i mi gael bod yn fyw.

O'r foment honno newidiodd fy mywyd i gyd. Roeddwn i gymaint mewn cariad â’r Iesu ac roedd mor real yn fy mywyd, roeddwn i'n llawn llawenydd. Dechreuais ddarllen y Beibl, roedd mor hawdd i'w ddarllen ac roedd y cyfan yn gwneud synnwyr. Fe wneuthum dderbyn rhywfaint o iachâd corfforol y diwrnod hwnnw, ond llawer mwy o fendith i mi oedd bod yno a rhoi fy mywyd i’r Iesu, oedd wedi dod yn Waredwr i mi, fy Arglwydd a fy Mrenin.

Roeddwn wedi cael fy "ngeni drachefn!" Ar y pryd, dydw i ddim yn meddwl fy mod erioed wedi clywed bod angen i mi gael fy ngeni drachefn ond fe euthum i mewn i’r genhadaeth iacháu honno yn un person a dod allan yn greadigaeth newydd. Cefais fy rhyddhau oddi wrth bechod a marwolaeth, ond fe wnaeth yr Iesu hefyd fy rhyddhau oddi wrth alcohol ac oddi wrth nicotin ac, yn lle cael casineb yn fy nghalon, fe lanwodd fi â'i gariad.

Digwyddodd hyn i gyd ychydig dros 40 mlynedd yn ôl ond mae'n dal gyda mi yn union yr un fath, ac rwy'n dal yn eiddo Iddo Ef. Nid yw fy mywyd wedi bod yn wely o rosynnau, ac rwyf wedi cael llawer o dreialon ond mae’r Iesu wedi bod gyda mi ac wedi rhoi ei heddwch yn ddwfn tu mewn. Yn anffodus, bu farw fy ngŵr annwyl, Roger, yn sydyn dim ond 16 mis ar ôl i mi ofyn i’r Iesu ddod i mewn i fy mywyd. Nid oedd yn gwybod ei fod yn mynd i farw, ond dim ond 2 wythnos cyn hynny roedd yntau hefyd wedi gofyn i’r Iesu ddod i mewn i'w fywyd. Yr wyf mor ddiolchgar am ras Duw am y gwn fod Roger gydag Ef. Ar y pryd, roedd fy mhedwar plentyn rhwng 3 a 9 oed, ac fe wnaeth yr Arglwydd fy ngalluogi i’w magu nhw. Ni allwn fyth fod wedi ei wneud hebddo Ef wrth fy ochr i.

Fy nymuniad dyfnaf yw bod pawb yn sylweddoli eu cyflwr pechadurus a bod angen iddynt roi eu bywydau i’r Iesu. Mae ein Duw yn Dduw sanctaidd ac fe fyddwn ni i gyd un diwrnod yn gorfod sefyll o’i flaen. Dim ond yn yr Iesu y byddwn yn canfod maddeuant am ein pechodau.

Pawb a bechasant ac ydynt yn ôl am ogoniant Duw. [Rhufeiniaid 3:23.]

Canys Crist, pan oeddem ni eto yn weiniaid, mewn pryd a fu farw dros yr annuwiol. Eithr y mae Duw yn canmol ei gariad tuag atom, oblegid, a ni eto yn bechaduriaid, i Grist farw drosom ni. [Rhufeiniaid 5:6, 8]

Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragwyddol, a’r hwn sydd heb gredu i’r Mab ni wêl fywyd, eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef. [Ioan 3:36]



**Catriona Dixon** o Gaerfyrddin



# Y cwestiwn allweddol

Efallai eich bod wedi darllen yr hanesion gwir yn y rhifyn hwn o gylchgrawn Llais ac yn meddwl yn awr tybed a allai Duw wneud gwahaniaeth yn *eich bywyd chithau* hefyd?

“Gall” yn bendant yw'r ateb

Mae rhywun wedi dweud bod yna fwlch siâp Duw ym mywyd pawb. Mae rhai pobl yn defnyddio alcohol, neu ryw, neu eu plant, neu fwyd, neu arian, neu gerddoriaeth, neu heroin i geisio llenwi’r teimlad o wacter.

Mae'r Beibl yn dweud bod Duw ei hun wedi rhoi hiraeth yn ein calonnau am rywbeth y tu allan i ni ein hunain, i lenwi'r gwacter hwnnw. Mae wedi gosod tragwyddoldeb yng nghalon pob dyn.

(Pregethwr 3:11).

Un rheswm pam nad yw pobl yn adnabod Duw yw nad ydynt wedi edrych o ddifrif amdano. Mae Duw yn dweud, "Ceisiwch fi hefyd a chwi a’m cewch pan y’m ceisioch â’ch holl galon". (Jeremeia 29:13).

Neges unigryw a rhyfeddol y Beibl yw bod Duw yn caru pob un ohonom yn bersonol ac mae eisiau i ni gael heddwch a bywyd helaethach - dyna pam y daeth yr Arglwydd Iesu Grist i'r ddaear.

Ymddiried yn Nuw yw sylfaen gwir hapusrwydd. Ond sut mae dechrau ar y daith hon o ffydd? Yn syml, trwy ymddiried yn Iesu Grist fel ein Gwaredwr personol. Dywedodd yr Iesu, "Myfi yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd. Nid oes neb yn dod at y Tad ond trwof i. " (Ioan 14:6).

I ddarganfod mwy, darllenwch "eich ymateb" ar dudalen 18.

Mae 'r llyfr poblogaidd, *The Happiest People on Earth,* yn adrodd stori ryfeddol am y ffordd y cychwynnodd sefydliad byd-eang FGB. Gellir ei brynu o Swyddfa Genedlaethol FGB neu'n uniongyrchol ar y rhyngrwyd yn **www.fgbuk.org**.

